RHAGLEN ADDYSG PDSA
CYFNOD ALLWEDDOL 2

Teitl
Cyfathrebu â Chwn

Cyfnod allweddol
2

Testun
Cyfathrebu â Chwn

Pwnc
Iechyd a Lles

Gweithgareddau a Gwmpesir

Teimladau

Cyfathrebu drwy iaith y corff

Saesneg - defnyddio arsylwadau a syniadau i ateb cwestiynau.

Gwyddoniaeth

Hanes
(Trosolwg byr o PDSA)

Deilliannau Cyflawni

Rwy'n gallu cyfleu'r hyn sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus ac adnabod ymddygiad caredig ac angharedig.

Rwy'n gallu cyfathrebu pan nad wyf yn teimlo'n ddiogel neu'n cael fy mharchu.

Rwy'n gallu ymateb i gyfarwyddiadau ynghylch symud ac yn gallu symud yn ddiogel mewn amrywiaeth o leoedd.

Rwy'n gallu adnabod ac asesu risgiau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd.

Rwy'n gallu cyfathrebu sut rwy'n teimlo.

Rwy'n gallu bod yn ymwybodol o sut mae teimladau'n cael eu cyfleu drwy weithredoedd.

Amcanion dysgu

Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o rai o'r pethau anhygoel mae cŵn yn eu gwneud i ni.

Dylai disgyblion allu adnabod sut mae ci yn teimlo drwy iaith ei gorff.

Dylai disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel wrth ymyl cŵn.

Deilliannau dysgu

Pawb: Bydd pawb yn gallu dangos sut i ymddwyn wrth ymyl ci sy'n dangos ymddygiad ymosodol.

Y rhan fwyaf: Bydd y rhan fwyaf yn gallu dweud a yw ci yn teimlo'n hapus neu a yw am gael llonydd.

Rhai: Bydd rhai yn gallu esbonio pam mae cŵn yn cael eu galw'n 'Ffrind Gorau Dyn', gan ddefnyddio ffeithiau maen nhw wedi'u dysgu fel cyfiawnhad.

Geiriau allweddol

PDSA	Milfeddyg	Elusen	Emosiynau
Hapus	Pryderus	Dan Straen	Iaith y corff
Wedi ymlacio	Effro	Dangos diddordeb	
Ysbyty Anifeiliaid Anwes		Dig	Arwyddion Rhybudd

Cwestiynau allweddol
Sut mae cŵn yn gwneud i chi deimlo?
Yn eich barn chi, beth fyddai'n digwydd i'r anifeiliaid anwes sâl a'r rhai sydd wedi'u hanafu pe na bai PDSA yn bodoli?
Sut ydych chi'n meddwl mae'r ci hwn yn teimlo?
Pwy sy'n ymddwyn yn wael yn y fideo - y ci neu ei berchennog?

Adnoddau

Taflenni dysgu siarad iaith ci
PowerPoint/Sgrin

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 1: Cyflwyniad	Esboniwch eich bod chi'n mynd i addysgu'r dosbarth sut i siarad iaith ci a rhowch drosolwg byr o'r sesiwn.	Dwylo i fyny: - Oes gennych chi gi? - Yw cŵn yn gwneud i chi deimlo'n hapus?	3/4 munud (yn cynnwys amlinelliad o'r sesiwn)
Sleid 2: PDSA (trosolwg)	Esboniwch fod PDSA yn elusen sy'n gofalu am anifeiliaid anwes pan na all perchnogion fforddio mynd â nhw at y milfeddyg.	Trafodaeth mewn parau ac yna atebion: - Pam mae milfeddygon a nyrsys milfeddygol yn bwysig? - Beth yw elusen? - Beth ydych chi'n meddwl fyddai'n digwydd i'r anifeiliaid anwes sâl a'r rhai sydd wedi'u hanafu pe na bai PDSA yn bodoli?	3/5 munud
Sleid 3: Fideo	Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw eisiau gweld y tu ôl i'r llenni yn un o'n hysbytai anifeiliaid anwes. Chwaraewch y fideo.		2 funud

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA
CYFNOD ALLWEDDOL 2

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 4 - Ffrind gorau dyn/menyw	Rhowch hanes byr yr ymadrodd 'ffrind gorau dyn' (neu fenyw!) Esboniwch pam rydyn ni'n gweld cymaint o wahanol siapiau a meintiau (bridio).		2 funud 2 funud
Sleid 5 - Sut mae cŵn yn ein helpu ni?	Gofynnwch i'r plant pa dasgau y gallan nhw feddwl amdanyn nhw mae cŵn yn eu gwneud. Rhowch drosolwg o'r gwahanol swyddi mae cŵn yn eu gwneud.	Gallai un plentyn wisgo mwgwd a phlentyn arall ei arwain o amgylch yr ystafell i ddangos gwaith cŵn tywys. Os oes amser, gallai'r plant greu diagram pry cop o'r gwahanol dasgau mae cŵn yn eu gwneud.	4/5 munud
Sleid 6 – Arogl	Esboniwch fod cŵn yn gallu deall yr holl bethau hyn amdanoch chi dim ond drwy arogli. Gweler y sleid am nodiadau.	Mae'r plant yn arogli ei gilydd i weld a allan nhw ddweud: - Beth gawson nhw i frecwast - Pa hwyliau maen nhw ynddo - Lle maen nhw wedi bod heddiw. Mae'r plant yn ceisio symud un ffroen ar y tro.	4/5 munud 1 funud
Sleid 7 - Golwg	Siaradwch am sut mae cŵn yn gallu gweld yn y tywyllwch.		2 funud
Sleid 8 – Clyw	Gweler y sleid am nodiadau.		2 funud
Sleid 9 - Sut mae'r bobl hyn yn teimlo?	Gofynnwch i'r plant	Gofynnwch am ddwylo i fyny a soniwch am bob delwedd. Ar ôl pob delwedd, gofynnwch i'r dosbarth cyfan ddangos y mynegiant hwnnw i chi (wyneb hapus, wyneb dig ac ati).	3/4 munud
Sleid 10 - Sut fyddech chi'n teimlo pe na bai pobl yn gwrando arnoch chi?	Gofynnwch i'r plant sut y bydden nhw'n teimlo.		2/3 munud
Sleid 11 - Beth mae'r cŵn hyn yn ceisio ei ddweud?	Esboniwch sut mae'n rhaid i ni ddysgu deall iaith eu corff	Mae'r plant yn ateb y cwestiwn yn weledol (wyneb hapus/trist)	1 funud
Sleid 12 - Pa gi sydd fwyaf tebygol o'ch cnoi chi?	Gofynnwch i'r plant bleidleisio am bob ci. Esboniwch bod unrhyw frîd yn gallu bod yn beryglus a thrafodwch gamargraffiadau.	30 eiliad cyflym i drafod gydag un o'u cyfoedion, yna dwylo i fyny i bleidleisio.	1 funud
Sleid 13 - Rwy'n hapus ac wedi ymlacio	Beth ydych chi'n meddwl mae'r cŵn hyn yn ceisio ei ddweud wrthym? Esboniwch sut i ddeall a yw ci yn hapus ac wedi ymlacio.	Gallai'r plant awgrymu sut mae'r ci yn teimlo cyn i'r sleid ddweud wrthyn nhw (ar ôl y drydedd ddelwedd). Gofynnwch i'r plant ddangos i chi sut maen nhw'n edrych pan fyddan nhw'n hapus.	2 funud 2/3 munud
Sleid 14 - Rwy'n effro ac yn dangos diddordeb	Beth ydych chi'n meddwl mae'r cŵn hyn yn ceisio ei ddweud wrthym? Esboniwch sut i ddeall a yw ci yn effro ac yn dangos diddordeb.	Gallai'r plant awgrymu sut mae'r ci yn teimlo cyn i'r sleid ddweud wrthyn nhw (ar ôl y drydedd ddelwedd). Gofynnwch i'r plant ddangos i chi sut maen nhw'n edrych pan fyddan nhw'n canolbwyntio.	2 funud 2/3 munud
Sleid 15 - Rydw i dan straen ac yn bryderus	Beth ydych chi'n meddwl mae'r cŵn hyn yn ceisio ei ddweud wrthym? Esboniwch sut i ddeall a yw ci dan straen neu'n poeni.	Gallai'r plant awgrymu sut mae'r ci yn teimlo cyn i'r sleid ddweud wrthyn nhw (ar ôl y bedwaredd ddelwedd). Gofynnwch i'r plant ddangos i chi sut maen nhw'n edrych pan fyddan nhw dan straen/yn bryderus.	2 funud 2/3 munud
Sleid 16: Rydw i ar fin ymateb, a chnoi o bosib	Beth ydych chi'n meddwl mae'r cŵn hyn yn ceisio ei ddweud wrthym? Esboniwch sut i adnabod yr arwyddion.	Gallai'r plant awgrymu sut mae'r ci yn teimlo cyn i'r sleid ddweud wrthyn nhw (ar ôl y drydedd ddelwedd). Gofynnwch i'r plant ddangos i chi sut maen nhw'n edrych pan fyddan nhw'n ddig iawn.	2 funud 2/3 munud

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA
CYFNOD ALLWEDDOL 2

Nodiadau

Dylai'r sesiwn ddangos i'r plant pa mor anhygoel yw cŵn a rhoi gwybod iddyn nhw am yr holl bethau gwych maen nhw'n eu gwneud.

Nid eu gwneud nhw'n amheus o gŵn yw amcan y sesiwn, ond sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel wrth ymyl cŵn.

Mae'r amseriadau'n rhai bras ac efallai y bydd angen eu haddasu yn dibynnu ar eich grŵp.

Mae'r sleidiau wedi'u creu i fodloni'r meysydd Cwricwlwm a restrir yn y blwch uchod.

Ar ôl y fideo ar sleid 16, efallai yr hoffech chi ddweud wrth y plant eu bod nhw ar fin gweld delweddau o gŵn y byddan nhw'n eu gweld yn ddoniol o bosib. Esboniwch ei bod hi'n bwysig iawn deall pan fydd ci yn teimlo fel mae'r cŵn hyn yn teimlo gan y gallai fod yn sefyllfa beryglus iawn a gallai rhywun gael ei frifo os byddan nhw'n ymateb mewn ffordd amhriodol.

Gweler nodiadau'r sleidiau am nodiadau manylach.

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleidiau 17 - 19- senarios	Siaradwch am y senarios	Gallech chi ofyn i'r plant eu hactio os oes amser.	Gweithgaredd = 5/10 munud
Sleid 20 -	Gofynnwch y cwestiynau yn nodiadau'r sleidiau i'r grŵp.	Ar y cwestiwn olaf, gwnewch i blentyn neidio wrth i chi ei ddweud.	4/5 munud
Sleid 21 - gweithgaredd	Byddwch yn goeden/byddwch yn garreg	Dechreuwch gyda gwirfoddolwr, yna gofynnwch i'r dosbarth cyfan roi cynnig arni.	3/4 munud
Sleid 22 - fideo	Chwaraewch y fideo		2 funud
Sleid 23 -26 Astudiaethau achos	Dywedwch wrth y plant am yr achosion a gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw'n meddwl ddigwyddodd nesaf.		3/4 munud
Sleid 27 -	Diolch		30 eiliad

Gweithgaredd ymestyn

Mae gweithgareddau ymestyn ar gael ar dudalen lawrlwytho Gwobr Ysgol PetWise.

Addasiadau ar gyfer anghenion ychwanegol

Gellir golygu'r PowerPoint fel y gellir newid y ffontiau a'u gwneud yn fwy o faint.
Gellid newid y sgrin/lliw cefndir hefyd os oes angen.

Efallai y bydd angen goruchwyliaeth oedolyn ar rai plant.

Amlinellwch beth fydd yn digwydd yn y sesiwn i blant ag ASD, tynnwch synau o sleidiau a rhagrybuddiwch yr athro am unrhyw fideos.

Peidiwch â digalonni os bydd plentyn ag ASD yn ei chael hi'n anodd dangos emosiwn gan y gallai hyn fod yn rhan o'i gyflwr.

Gwerthusiad

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585